

## newyddion Cymraeg Colegau Cymru #182

### 05 Mai 2015

**Croeso i e-newyddion Colegau Cymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.**

**Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news, the weekly roundup of news from across education colleges in Wales.**

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi [Cysylltwch](#).

Do please [let us know](#) if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

### Datblygiadau Strategol

#### Toriadau serth i sgiliau oedolion i effeithio ar economi Cymru

Mae colegau ledled Cymru yn pryderu y bydd y gostyngiad difrifol yn niferoedd yr oedolion mewn dysgu yn effeithio ar iechyd ac economi Cymru yn y blynyddoedd i ddod.

Mae tua 90,000 yn llai o oedolion mewn dysgu rhan-amser nag yr oedd ddeng mlynedd yn ôl yng ngholegau Nghymru, a bydd y nifer yn lleihau ymhellach yn dilyn gostyngiad dramatig i gyllid y flwyddyn nesaf.

[Mwy>>>](#)

#### Ysgol Uwchradd Eastern a Choleg Caerdydd a'r Fro – cam mawr ymlaen

Bydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn gadael safle presennol Trowbridge dros yr haf er mwyn adeiladu ysgol 11-16 newydd Ysgol Uwchradd Eastern, a chyfleusterau galwedigaethol newydd lle bydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn cyflwyno yr holl ddarpariaeth ôl-16 ar y safle.

Mae Cyngor Sir Caerdydd yn tendro nawr ar gyfer dylunio ac adeiladu'r campws. Mae disgwyl i'r datblygiad agor ym mis Medi 2017.

[Mwy>>>](#)

#### Coleg Caerdydd a'r Fro'n chwilio am llywodraethwyr newydd

Bydd strwythur llywodraethu CCAF yn newid yn ystod y misoedd sydd i ddod a'r wythnos hon mae'r Coleg wedi lansio ymgyrch recriwtio i ddenu aelodau newydd i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

[Mwy>>>](#)

### Colegau o Ansawdd

#### Y Cyfradd Lwyddiant Uchaf yng Ngholeg Merthyr Tudful

Mae Is-adran Gofal a Mynediad y Coleg Merthyr Tudful wedi cyrraedd y cyfraddau llwyddiant uchaf ar draws yr holl golegau yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol gyda 96% o fyfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Cyhoeddus, a Gofal Plant yn cwblhau eu cyrsiau yn llwyddiannus ac yn cyrraedd eu nodau dysgu yn ystod 2013-2014. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd y sector o 86%.

[Mwy>>>](#)

---

## Dilyniant Myfyrwyr

### Cyn-fyfyriwr yn agor Siop Thai Dros dro

Agorodd Ben Humphreys, cyn-fyfyriwr Lletygarwch ac Arlwyo yng Ngholeg Llandrillo, fwyty Thai dros dro 'Siam Like It Hot' ym Manceinion gyda'i wraig Bo a'i ffrind James Saaddat yn ddiweddar - ac roedd y bwyty'n llawn ddyddiau cyn iddo agor.

Ben yw is-gogydd presennol bwyty James Martin a chyn is-gogydd Australasia.

[Mwy>>>](#)

---

### O academydd gwyddoniaeth i gerddor jazz

Bydd y myfyriwr technoleg cerdd Ben Manning o Goleg Sir Gâr yn astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ar ôl cael cynnig i astudio ar y cwrs jazz BMus (Anrhydedd).

[Mwy>>>](#)

---

## Llongyfarchiadau! Llwyddiant mewn Cystadlaethau

### Yr Academi Bêl Droed yn Ennill Cynghrair Elit ECFA

Mae academi bêl-droed Coleg Sir Gâr wedi ennill Cynghrair Elit Cymdeithas Bêl-droed Colegau Lloegr (Cat 2) gan ddiogelu enw da'r garfan fel chwaraewyr rhagorol ar faes cenedlaethol y Deyrnas Unedig.

[Mwy>>>](#)

---

### Cyhoeddi enillwyr yn Rownd Derfynol Genedlaethol Cymru Her Arian am Oes

Yn Rownd Derfynol Cymru yr Her Arian am Oes yr wythnos diwethaf, enillodd dau dîm eu lle yn Rownd Derfynol y DU yr Her Arian am Oes, sef cystadleuaeth rheoli arian a gynhelir gan Lloyds Banking Group gyda CholegauCymru a Youth Cymru.

Y ddau dîm fydd yn cynrychioli Cymru yw: DOSH (Defining Our Spending Habits) o Acorn Learning Solutions a Gym Value for Money, Campws Crosskeys Coleg Gwent.

[Mwy>>>](#)

[Mwy ar dîm Gym Value for Money Coleg Gwent](#)

---

### Y wobr gyntaf yng Ngwobrau Ffilm Cymru

Enwebwyd Myfyrwyr o'r Coleg Merthyr Tudful pump o weithiau yng ngŵyl ffilm Zoom ac enillasant dwy wobwr, sef y Ffilm Orau 14-18 oed, a'r Ffilm Ddogfen Orau.

[Mwy>>>](#)

---

## Ennill chwe medal mewn cystadleuaeth adeiladu

Mae myfyrwyr yr amgylchedd adeiledig yng Ngholeg Sir Gâr wedi ennill chwe medal, gan gynnwys tair medal aur yn rownd derfynol ranbarthol SkillBuild a gynhaliwyd yng Nglannau Dyfrdwy.

[Mwy>>>](#)

---

## Pencampwr Iau Cymru Urdd y Bricwyr

Mae adeiladwr llawn uchelgais sy'n fyfyrwr gosod brics yng Ngholeg y Cymoedd, Zac Timothy, wedi cael ei gydnabod yng Nghystadleuaeth Flynyddol Gosod Brics Urdd y Bricwyr gan ennill y teitl 'Pencampwr Iau Cymru Urdd y Bricwyr'.

[Mwy>>>](#)

---

## SkilleLECTRIC Cymru: Aur

Mae Daniel Griffin, myfyriwr Gosod Trydan Lefel 3 ym Mlaenau Gwent Hafan Dysgu Coleg Gwent, wedi curo 11 o gystaddeuwr eraill i ennill y fedal aur yn rownd derfynol SkilleLECTRIC Cymru.

[Mwy>>>](#)

---

## Gwallt a harddwch myfyrwyr yn cyrraedd y brig

Bu i fyfyrwyr gwallt a harddwch Campws Crosskeys Coleg Gwent wneud eu marc yn Salon Cymru, prif ddigwyddiad Cymru ar gyfer trin gwallt creadigol a thalent harddwch, gyda thri o fyfyrwyr yn ennill tlysau, gan ennill cyntaf mewn trin gwallt ac ail a thrydydd yn coluro.

[Mwy>>>](#)

---

## Adnabod Unigolion Disglair

### Gwobr Sgowtiaid y Frenhines

Mae'r wobwr ieuentid uchaf yn y DU, 'Gwobr Sgowtiaid y Frenhines' (Queen's Scout Award), wedi cael ei ddyfarnu i Megan Harrison, myfyriwr Chwaraeon Awyr Agored yng Ngholeg Merthyr Tudful.

[Mwy>>>](#)

---

## Darlithydd peirianeg Coleg Sir Benfro ar restr fer Gwobrau Addysgu Pearson

Mae William Bateman, darlithydd peirianeg yng Ngholeg Sir Benfro, wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Addysgu Pearson.

Wedi ei ddethol o filoedd o enwebiadau o bob cwr o'r DU, mae William yn ymuno â rhestr fer o 67 o athrawon eithriadol ar draws 13 categori gwobrau, sydd yn sêr y proffesiwn addysg.

[Mwy>>>](#)

---

## **Pencampwr Digidol Coleg**

Mae myfyriwr Cyfrifiadura 16 oed o Grŵp Llandrillo Menai wedi cael ei ddewis yn Bencampwr Digidol CAE ei goleg, gyda chynlluniau ar gyfer defnyddio technoleg i wella profiadau myfyrwyr.

[Mwy>>>](#)

---

## **Cyfleoedd Dysgu**

### **Lleoliadau gwaith ym Mrwsel i fyfyrwyr y gyfraith**

Mae tri o fyfyrwyr y gyfraith o Gampws Dinas Casnewydd Coleg Gwent wedi elwa o leoliadau gwaith fu'n agoriad llygad yn Senedd Ewrop ym Mrwsel lle buont yn mynychu cyfarfodydd a rhoi cyflwyniadau ar Gymru yn Llys Cyfiawnder Ewrop, Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd.

[Mwy>>>](#)

---

## **'Sêr yr Wythnos' yn rasys Cheltenham**

Mae angen cryn dipyn o staff cynorthwyol ar Gŵyl Rasio Ceffylau Cheltenham, a doedd neb gwell na'r 43 o ddysgwyr lletygarwch ac arlwygo o Goleg y Cymoedd a fu yno o 6 y bore yn helpu i weini ar y tyrfaoedd, gyda dau ohonynt yn cael eu gwobrwyo'n 'Sêr Compass yr Wythnos'.

[Mwy>>>](#)

---

## **Gweithwyr proffesiynol diwydiant yn arddangosfa gwallt a harddwch**

Llwyfanodd Coleg Gŵyr Abertawe noson i ddathlu ac ysbrydoli talent Cymru ar draws y sector trin gwallt a harddwch yn ddiweddar gyda dosbarth meistr trin gwallt a choluro gan ser rhyngwladol y diwydiant.

[Mwy>>>](#)

---